| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Ionawr 2011** |
| **Teitl :** | **Honiadau yn erbyn aelodau** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

## 1. Cefndir

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu aelodau'r Pwyllgor o'r datblygiadau, ers fy adroddiad diwethaf, o safbwynt honiadau yn erbyn aelodau. Seilir yr adroddiad ar y wybodaeth a dderbyniwyd wrth yr Ombwdsmon.

## 2. Penderfyniadau

### 2.1 Achosion 2665/201001203, 201001355 - 1356

Cwynion yn erbyn tri aelod o'r un cyngor tref gan gyd-gynghorydd:

- Gwybodaeth benodol heb ei roi i holl aelodau'r cyngor. Ni welai'r Ombwdsmon fod tystiolaeth o dorri'r cod
- Diffygion yng nghofnodion cyfarfod a methiant i hysbysu holl aelodau'r cyngor o ddigwyddiad penodol. Roedd rhain yn faterion i'r clerc, nid oeddynt yn faterion cod ymddygiad
- Penderfyniad wedi ei wneud heb gytundeb y cyngor. Nid oedd tystiolaeth fod y cynghorydd yn rhan o'r penderfyniad
- Un o'r cynghorwyr wedi rhwystro'r achwynydd rhag gofyn cwestiynau mewn cyfarfod o'r cyngor. Dywedodd y cynghorydd ei bod wedi ymateb i bob cwestiwn heblaw'r rhai hynny y cynghorwyd iddi beidio gan y Swyddog Monitro. Dim tystiolaeth o dorri'r cod

Penderfyniad – peidio ymchwilio.

### 2.2 Achos 201001386

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd fod y cynghorydd wedi gweiddi arni hi mewn cyfarfod gan ddweud "will you be quiet" a heb ymddiheuro am hyn. Dywedodd y cynghorydd nad oedd wedi gweiddi a'i bod wedi gorfod gofyn i'r achwynydd fod yn dawel oherwydd ei bod yn torri ar ei thraws yn gyson.

Ystyriodd yr Ombwdsmon fod y sylwadau wedi eu gwneud yng nghyd-destun cyfarfod tanllyd yr oedd y cynghorydd yn ei gadeirio. Safbwynt yr Ombwdsmon yw mai mater i gadeirydd cyfarfod, yn hytrach nag ef, yw rheoli trafodaeth o fewn terfynau rhesymol. Ni welai fod y ffordd y cyflawnodd y cynghorydd ei dyletswydd yn gyfystyr â thorri'r cod.

Penderfyniad – peidio ymchwilio.

**2.3 Achos 201001415**

Cwyn gan gyd-aelod fod y cynghorydd wedi:

- Siarad â hi mewn ffordd elyniaethus a dirmygus yn ystod sgwrs ffôn. O ystyried sefyllfa annibynnol yr Ombwdsmon ynghyd â diffyg unrhyw dystiolaeth annibynnol o'r alwad ffôn, ni fyddai unrhyw ystyriaeth bellach o'r mater yn medru datrys y sefyllfa.
- Wedi ymddwyn fel bwli mewn cyfarfod. Ystyriodd yr Ombwdsmon fod yr ymddygiad honedig wedi digwydd yng nghyd-destun cyfarfod tanllyd yr oedd y cynghorydd yn ei gadeirio. Safbwynt yr Ombwdsmon yw mai mater i gadeirydd cyfarfod, yn hytrach nag ef, yw rheoli trafodaeth o fewn terfynau rhesymol. Ni welai fod y ffordd y cyflawnodd y cynghorydd ei dyletswydd yn gyfystyr â thorri'r cod.

Penderfyniad - peidio ymchwilio.

**2.4 Achos 2635/201000931**

Cwyn fod y cynghorydd wedi gwneud gwaith ar wal gydrannol a oedd wedi difrodi eiddo'r achwynydd.

Roedd hi'n amlwg nad oedd yr aelod yn gweithredu fel cynghorydd ond fel unigolyn preifat. Mae'r cod ond yn berthnasol pan fydd aelod o gyngor yn gweithredu ei ddyletswyddau fel cynghorydd neu'n ceisio mewn rhyw ffordd ddibynnu ar ei statws fel cynghorydd.

Penderfyniad - peidio ymchwilio.

**2.5 Achosion 201001386 & 201001415**

Cwyn gan aelod o'r cyhoedd yn erbyn dau aelod o'r un cyngor cymuned:

- Fod aelod wedi gofyn i'r achwynydd adael yr ystafell yn ystod trafodaeth ar eitem benodol. Er yn anghywir yn drefniadol, nid oedd yn fater i'r cod ymddygiad.
- Fod aelod wedi methu datgan buddiant pan ystyriwyd cais cynllunio'r achwynydd. Honwyd fod yr aelod yn dial gan iddo fod yn aflwyddianus yn bidio am yr eiddo pan brynwyd ef gan yr achwynydd. Gwadodd yr aelod ei fod wedi bidio am yr eiddo, ond hyd yn oed petai wedi gwneud hynny ni ystyriai'r Ombwdsmon y byddai ganddo fuddiant beth bynnag.

Penderfyniad - peidio ymchwilio.

## 3. Achosion heb benderfyniad

Rydym yn ymwybodol o un gŵyn sydd ar agor ar hyn o bryd:

### 3.1 Achos200901550

Cwyn o ddwyn anfri ar ei swydd neu ar yr awdurdod (para.6(1)(a))

Mae ymchwiliad yr Ombwdsmon yn parhau.

## 4. Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad er gwybodaeth.